**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-591
Ein cyf/Our ref: LA/05063/14

William Powell AM
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

9. Hydref 2014

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi yn gofyn am fy marn am y ddeiseb gan UNISON yn gwrthwynebu'r gostyngiad yng nghyllid Awdurdodau Lleol.

Mae Awdurdodau Lleol yn cael tua thraean o Gyllideb Llywodraeth Cymru i gydnabod y gwasanaethau hanfodol a ddarperir ganddynt. O ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU, erbyn 2015-16 bydd ein cyllideb oddeutu 10% yn is mewn termau real nag ydoedd yn 2010-11. Serch hynny, rydym wedi amddiffyn Llywodraeth Leol rhag y gwaethaf o'r toriadau hyn. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r gwariant fesul pen ar wasanaethau lleol yn Lloegr wedi **gostwng** tua 7% yn nhermau arian parod. Yng Nghymru mae'r gwariant hwn wedi **cynyddu** 3%.

O fewn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 30 Medi, mae penderfyniadau'r Gweinidogion yn seiliedig ar dystiolaeth y pwysau ariannol sy'n wynebu'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chraffu yn ystod yr wythnosau nesaf gan y Pwyllgorau priodol yn y Cynulliad, cyn gwneud y penderfyniadau terfynol ym mis Rhagfyr.

Mae deiseb UNISON yn sôn yn benodol am bwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd. I gydnabod hyn, mae £10 miliwn ychwanegol ar gael i wasanaethau cymdeithasol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015-16. Sicrhawyd y cyllid ychwanegol hwn er mwyn helpu i liniaru'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Mae deiseb UNISON yn galw ar Lywodraeth Cymru *"i ailystyried y toriadau arfaethedig o hyd at 4.5% yn y gyllideb ar gyfer Llywodraeth Leol".* Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnig "toriadau o hyd at 4.5%". Hysbyswyd awdurdodau lleol gan fy rhagflaenydd y dylent fod yn paratoi ar gyfer amrywiaeth o senarios ariannu. Ar 8 Hydref cyhoeddais y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2015-16. Y gostyngiad cyffredinol yn y cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yw 3.4%. Er fy mod yn cydnabod bod hwn yn setliad heriol, mae'r cyllid a ddarperir ganddo'n un o'r ffynonellau y mae angen i Awdurdodau eu hystyried wrth lunio'u cynlluniau cyllidebu. Mae ganddynt ystod o adnoddau i'w helpu i reoli cyllidebau'r dyfodol ac maent yn cael incwm o sawl ffynhonnell, gan gynnwys grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru, grantiau gan gyrff llywodraethol eraill ac Ewrop, y dreth gyngor, a ffioedd a thaliadau lleol.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag Arweinwyr Awdurdodau Lleol a hefyd â chynrychiolwyr UNISON i drafod amrywiaeth o faterion, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Diolch am dynnu fy sylw at y ddeiseb hon.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services